

Atodiad F – Adroddiad Blynyddol

At Weinidogion Cymru,

### **Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, dyma adroddiad blynyddol **Cyngor Sir Ceredigion** ar gyfer y flwyddyn 2021-22.

<p>Y camau a gymerwyd i hybu teithiau teithio llesol</p>	<p>Cynhaliwyd trydydd cam yr ymgysylltiad cyhoeddus drwy Commonplace ar gyfer yr Adolygiad o Fap Rhwydwaith Teithio Llesol Ceredigion. Gyda chymorth Sustrans, cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos statudol hwn sylw a chyhoedduswydd eang. Yna gwnaed gwelliannau terfynol i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol cyn ei gyflwyno i'r Gweinidog ddiwedd Mawrth 2022.</p> <p>Mae swyddog Teithiau Llesol Sustrans wedi cyflwyno amryw o sesiynau mewn ysgolion ar draws Ceredigion yn dilyn llacio cyfyngiadau COVID19. Roedd y rhain yn cynnwys sgiliau beic/sgwter, Doctor Beiciau (peirianwyr beiciau a'r swyddog Teithiau Llesol yn gwirio a thrwsio beiciau/sgwteri'r ysgol gyfan - disgyblion a staff), sesiynau seiliedig ar Lwybrau Diogel Mewn Cymunedau i nodi rhwystrau tybiedig rhag teithio llesol a chanfod atebion, sesiynau trwsio tyllau mewn teiars a chynnal a chadw beiciau gyda blynyddoedd 4/5/6, cydweithio ag E-Symud (cynllun e-feic / e-feic cargo Sustrans, a ariannir gan Lywodraeth Cymru) i gefnogi'r gymuned ysgol yn gyffredinol, cymorth rhithwir parhaus, hyrwyddo a hwyluso digwyddiadau a chystadlaethau ysgol gyfan/cenedlaethol e.e. wythnos 'Beicio i'r Ysgol', 'Stroliwch a Roliwch' a mentrau eraill, cyflenwi ysgolion â sgwteri ar gyfer 'sgwter yr wythnos' / cronfa sgwteri.</p> <p>Cyflenwodd Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd Cyngor Sir Ceredigion (CSC) y Safon Genedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Beicio Lefel 1 a 2 i 341 o ddisgyblion cynradd.</p> <p>Cyflenwyd y Safon Genedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Beicio Lefel 2 i 10 o oedolion hefyd.</p> <p>Gweithiodd CSC efo Sustrans i adolygu a diweddarau'r Map Teithio Llesol ar gyfer Aberystwyth, sydd wedi'i lwytho ar we-dudalen Teithio Llesol CSC.</p>
--	---

	<p>Cynigiwyd y cynllun 'Beicio i'r Gwaith' i weithwyr CSC, gyda 2 ffenestr ymgeisio yn ystod y flwyddyn.</p>
<p>Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig</p>	<p><b>Pecyn Tref Aberteifi</b></p> <p><b>Maes yr Haf</b>  Llwyddwyd i ledu'r droedffordd drwy gyflwyno System Draffig Unffordd newydd a chyfyngiadau newydd ar barcio ar y stryd - gydag ymgynghoriadau cyhoeddus statudol yn ofynnol ar gyfer y ddau. Hefyd llwyddodd CSC i brynu sribyn o dir gan Gymdeithas Dai leol, a chwblhawyd y datblygiadau hyn o fewn y flwyddyn ariannol flaenorol, gan ganiatáu i'r cynllun hwn ddatblygu i'r cam adeiladu yn gynnar yn 2020-21.</p> <p><b>Ffordd Gwberr</b>  Cafodd y parth 20mya ei ymestyn drwy gyflwyno mesurau gostegu traffig newydd. Cafodd y droedffordd ei lledu hyd at safon llwybr cyd-ddefnyddio, gan gysylltu â'r ddarpariaeth bresennol yn Rhodfa'r Felin yn sgil cyflwyno cyfyngiadau newydd ar barcio ar y stryd. Roedd gofyn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus cyn gwneud y newidiadau hyn.  Gwella'r cysylltedd teithio llesol â'r Ganolfan Iechyd Integredig newydd ac ymlaen i Mwldan Isaf a Chanol y Dref.  I'r gorllewin o gylchfan Rhodfa'r Felin, llwyddwyd i ledu'r llwybr troed mewn ambell i fan cul drwy gael tiffeddianwyr preifat i neilltuo tir. Mae CSC wrthi'n gweithio yn yr ardal hon ar hyn o bryd yn adleoli polion cyfleustod o'r droedffordd, ar y cyd â'r cwmnïau cyfleustod perthnasol.</p> <p><b>Uwchraddio Llwybr Prifysgol Llanbedr Pont Steffan</b>  Yn sgil gwaith partneriaeth â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, llwyddwyd i uwchraddio'r llwybr Hawl Dramwy Gyhoeddus, a oedd yn aml yn wlyb ac yn fwdlyd, i greu llwybr tarmac 2 fetr o led, sy'n darparu gwell mynediad trwy'r flwyddyn i gerddwyr, ac yn arbennig defnyddwyr cerbydau symudedd a theuluoedd ifanc gyda chadeiriau gwthio.  Gosodwyd setiau newydd o groesfannau cyrbau isel a phafin botymog yng Nghanol y Dref i wella hygyrchedd, yn enwedig i ddefnyddwyr cerbydau symudedd a phobl â nam ar eu golwg.</p>

	<p><b>Gwelliannau i Droedffyrdd Tref Aberystwyth</b></p> <p><b>Waunfawr</b> Gwnaed cais llwyddiannus am arian grant i'w ddefnyddio yn ystod y flwyddyn i gynyddu rhychwant y gwaith yn Waunfawr, lle gwnaed gwelliannau helaeth i'r droedffordd boblogaidd hon i gerddwyr yn teithio rhwng safleoedd y Campws a'r Ysgol Uwchradd fawr. Yn sgil ymgysylltu ag Ysgol Penglais hefyd, llwyddwyd i wella diogelwch ar y ffordd ger prif fynedfa'r ysgol, drwy osod mesurau gostegu traffig newydd.</p> <p><b>Llwyn yr Eos</b> Cafodd y llwybr cyd-ddefnyddio sy'n dod o'r danffordd ei ledi wrth gyrraedd mynedfa Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos. Hefyd, gosodwyd arwyneb newydd ar y troedffyrdd ar y naill ochr a'r llall i fynedfa'r ysgol i wella mynediad teithio llesol i'r ysgol.</p> <p><b>Tynnu Gatiâu Rhwystr Llwybr Ystwyth</b> Tynnwyd 2 set o gatiâu rhwystr Llwybr Ystwyth (NCN 81) er mwyn gwella hygyrchedd rhwng Rhydyfelin ac Aberystwyth, a gosodwyd arwyddion newydd, marciau ffordd a bolardiau symudadwy.</p>
<p>Costau a ysgwyddir ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol</p>	<p><b><u>Cronfa Teithio Llesol</u></b></p> <p><b>Grant Dyranriad Craidd</b> (sy'n cynnwys costau adeiladu cynlluniau gwaith bach. Mae hefyd yn cynnwys costau datblygu cynlluniau Llwybrau'r Dyfodol h.y. cynlluniau sydd heb eu hadeiladu eto). £267,992.48</p> <p><b>Pecyn Tref Aberteifi</b> £189,270.41*</p> <p>*Mae hwn yn cynnwys cyfraniad arian cyfatebol gan GSC.</p> <p><b>Uwchraddio Llwybr Prifysgol Llanbedr Pont Steffan</b> £73,324.09</p> <p><b>Gwelliannau i Droedffyrdd Tref Aberystwyth</b> £307,420.56</p>

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth a ganlyn yn rhoi trosolwg o'r seilwaith sydd wedi cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn flaenorol:

<p>Gwariant dangosol ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig sy'n cael eu cyllido neu eu cyllido'n rhannol gan drydydd partion.</p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>Hyd llwybrau newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cerdded</li> <li>- Beicio</li> <li>- Cyd-ddefnyddio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- 366 metr</li> <li>- Amherthnasol</li> <li>- 138 metr</li> </ul>
<p>Hyd y llwybrau wedi eu gwella:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cerdded</li> <li>- Beicio</li> <li>- Cyd-ddefnyddio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- 1,678 metr</li> <li>- Amherthnasol</li> <li>- 30 metr</li> </ul>
<p>Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell</p>	<p><b>Maes yr Haf, Aberteifi</b>  2 set newydd o groesfannau cyrbau isel a phafin botymog wedi'u gosod.  8 bolard wedi'u gosod i wella diogelwch cerddwyr drwy atal parcio ar y droedffordd.</p> <p><b>Ffordd Gwberr, Aberteifi</b>  Ymestynnwyd y parth 20mya gan 450 metr.  3 croesfan arafu lefel uwch  2 dwmpath cyflymder  4 set newydd o groesfannau cyrbau isel a phafin botymog  Plannu 6 coeden newydd.</p> <p><b>Llwybr Prifysgol Llanbedr Pont Steffan</b>  4 pant newydd wedi'u gosod rhwng y llwybr a'r afon.  12 o goed newydd wedi'u plannu ar y Campws.  3 croesfan cerddwyr wedi'u huwchraddio ar y Campws  5 set newydd o groesfannau cyrbau isel a phafin botymog wedi'u gosod yng Nghanol y Dref.  1 Gorsaf Gyhoeddus ar gyfer Trwsio Beiciau gyda Phwmp Teiars wedi'i gosod yng Nghanol y Dref (gerllaw'r ysgol 3-18 a'r Ganolfan Hamdden ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol - NCN 81).</p> <p><b>Cynllun Troedffordd Waunfawr</b>  1 cysgodfan feiciau newydd rhesel dost 4 cylch wedi'i gosod yn Ysgol Penglais.  8 set newydd o groesfannau cyrbau isel a phafin botymog.</p>


	<p>2 dwmpath cyflymder.  1 croesfan arafu lefel uwch  1 fainc newydd wedi'i gosod ger yr arhosfan fysiau.  Cyrbau Kassel newydd wedi'u gosod ger yr arhosfan fysiau.  5 coeden newydd wedi'u plannu.</p> <p><b>Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos, Penparcau</b>  Y llwybr cyd-ddefnyddio wedi'i ledu a gosodwyd arwyneb newydd ar y troedffyrdd tu allan i fynedfa'r ysgol.  1 croesfan newydd gyda chyrbau isel a phafin botymog wedi'i gosod.</p>
--	--

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Rhaglen o 7 o declynnau newydd ar gyfer cyfrif beicwyr a cherddwyr wedi'u gosod at ddibenion monitro.

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y gellir ei gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â Chanllawiau statudol y Ddeddf Teithio Llesol (argraffiad 2021).

Llofnod y Prif Weithredwr:



Enw'r Prif Weithredwr:

Mr Eifion Evans

Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru:

30.09.2022

